**Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

**YMATEBION I’R PWYLLGOR MATERION CYMREIG AR EITHRIO CYMDEITHASOL YNG NGHYMRU**

**Pwrpas**

1. Hysbysu’r Pwyllgor am y camau gweithredu y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn eu cymryd mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig ar Eithrio Cymdeithasol yng Nghymru ac i wahodd sylwadau gan y Pwyllgor.

**Crynodeb**

2. Mae argymhellion adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig ynghlwm yn Atodiad A. Maent yn amrywiol, gan gwmpasu materion megis;

- Plant, pobl ifanc a theuluoedd;
- Anabledd;
- Ethnigrwydd a defnydd pobl o’u hiaith gyntaf;
- Addysg a sgiliau;
- Tlodi a chefnogaeth ariannol;
- Adfywio cymunedau;
- Tai; a
- Rhoi adroddiad ar eithrio cymdeithasol a gwybodaeth ystadegol amdano.

1. Yn dilyn pob argymhelliad ceir ymateb y Cynulliad Cenedlaethol iddo. Derbyniwyd pob un o’r 37 o argymhellion.

**Cefndir**

2. Canlyniad i archwiliad pwysig cyntaf y Pwyllgor ers datganoli oedd Adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig, a gyhoeddwyd ar 15 Ionawr 2001, ac mae’n canolbwyntio’n bennaf ar y ffactorau hynny sy’n effeithio ar eithrio cymdeithasol, sy’n parhau'n un o gyfrifoldebau Llywodraeth y DU, gan gynnwys budd-daliadau nawdd cymdeithasol, trethu, y gwasanaethau cyflogi, trosedd ac anhrefn, rheoliad gwasanaethau ariannol a rheoli Swyddfeydd y Post.
3. Cydnabu’r Pwyllgor Materion Cymreig bod gan y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth y DU gyfrifoldeb am fynd i’r afael ag eithrio cymdeithasol. Cydnabu hefyd ei bod yn hanfodol cael cydweithrediad agos rhwng y ddau. Gwnaed nifer o argymhellion gan y Pwyllgor i’w hystyried gan y Cynulliad (ynghlwm yn Atodiad A).
4. Cymerir camau gweithredu ym mhob rhan o’r Cynulliad Cenedlaethol i fynd i'r afael â phroblemau eithrio cymdeithasol a gwenir hyn gan ddefnyddio dull sy'n gyffredin i bawb. Bydd datblygiad parhaus Adroddiad Blynyddol y Cynulliad ar Gynhwysiad Cymdeithasol a sefydlu’r Bwrdd Partneriaeth Adfywio Cymunedau a Chynhwysiad Cymdeithasol newydd yn ddau arf cadarn wrth barhau i ddarparu gwelliannau yn y ffordd rydym yn delio ag eithrio cymdeithasol.

**Argymhelliad**

5. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi’r camau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb i’r adroddiad hwn ac i fynegi ei farn ar

unrhyw rai o'r argymhellion a amlinellwyd yn Atodiad A.

**Y Gyfarwyddiaeth Gymunedau**

**Tachwedd 2001**

**Atodiad A**

## Ymatebion i argymhellion adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig ar Eithrio Cymdeithasol yng Nghymru

**1. Nid ein diben yn yr archwiliad hwn yw archwilio'r hyn a wneir gan y Cynulliad; ni fyddai hynny'n briodol nac yn ddefnyddiol. Rydym yn croesawu'n frwd y Cynllun Gweithredu Cynhwysiad Cymdeithasol a luniwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol.**

Nodwyd. Ychwanegwyd at y Cynllun Gweithredu Cynhwysiad Cymdeithasol ers hynny gan Adroddiad Blynyddol y Cynulliad ar Gynhwysiad Cymdeithasol.

**2. Gofynnwn i'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried y ffordd orau i sicrhau bod awdurdodau lleol yn bodloni'u cyfrifoldebau am dai ar gyfer menywod sy'n dioddef trais yn y cartref, fel rhan o'r strategaeth gyffredinol i fynd i'r afael â'r broblem hon sydd, yn anffodus, ar gynnydd.**

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cefnogi mesurau i atal trais yn y cartref a darparu cymorth i'r rhai sy'n dioddef hynny. Darperir cymorth grant ar hyn o bryd dan ddeddfwriaeth plant a theuluoedd a thai, sy'n darparu'r cyllid craidd ar gyfer Cymorth i Ferched yng Nghymru a chyllid refeniw i gefnogi gwaith llochesau lleol a thai lle ceir cefnogaeth yn y gymuned. Mae'r Cynulliad hefyd yn gysylltiedig â pholisi yn ymwneud ag effaith trais yn y cartref ar blant ac â mesurau i ddiogelu menywod rhag trais tra'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r Swyddfa Gartref (sy'n bennaf gyfrifol am y pwnc hwn o safbwynt cyfiawnder troseddol) mewn ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, yn fwyaf diweddar "*Break the Chain*" ym 1999, pan y dosbarthwyd taflenni a phosteri (yn y Gymraeg a'r Saesneg) oedd yn rhoi cyngor i'r rhai oedd yn dioddef trais yn y cartref. Cafwyd ymgynghori agos â'r Swyddfa Gartref yngl•n â grantiau i brosiectau yng Nghymru dan y Rhaglen Gostwng Troseddau.

Ym mis Mawrth 2001 cyflwynodd y Cynulliad Cenedlaethol Orchymyn oedd yn ehangu dyletswyddau awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion tai pobl ddigartref mewn grwpiau anghenion oedd yn flaenoriaeth i gynnwys pobl oedd yn ffoi oddi wrth drais yn y cartref neu'r rhai oedd dan fygythiad o drais yn y cartref. Mae Cyfarwyddyd statudol eisoes yn pwysleisio na ddylai awdurdodau lleol gyfeirio'r rhai sy'n dioddef trais yn y cartref at awdurdod arall pe byddai hynny'n eu rhoi mewn perygl o drais, ac y dylai awdurdodau weithio'n agos gyda llochesau menywod lleol i ddarparu mynediad i lety argyfwng a thai mwy parhaol.

Rhown gefnogaeth gref i ddatblygiad gweithio rhyng-asiantaethol ar lefel leol i frwydro yn erbyn y broblem hon ac rydym yn

falch o dwf cyflym fforymau trais yn y cartref ledled Cymru. Ystyria'r Cynulliad bod angen tynnu ynghyd yr holl brosiectau hyn mewn strategaeth fwy cydlynol ac ar hyn o bryd mae'n ystyried opsiynau ar gyfer gweithredu hyn.

**3. Croesawn y mater o gyfarwyddyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar ffyrdd effeithiol o fynd i'r afael â bwlio mewn ysgolion, ac yn enwedig bwlio homoffobaidd.**

Nodwyd.

**4. Croesawn y gwaith a wneir gan y Cynulliad Cenedlaethol i fynd i'r afael â'r gyfradd uchel o feichiogrwydd ymysg merched yn eu harddegau yng Nghymru a'r Strategaeth Iechyd Rhywiol, ac edrychwn ymlaen at ei gweld yn cael ei gweithredu.**

Mae'r cynnydd ar y strategaeth iechyd rhywiol yn parhau:

- Mae Awdurdodau Iechyd a Grwpiau Iechyd Lleol ledled Cymru yn cynhyrchu eu Strategaethau Iechyd Rhywiol Lleol
- Cyhoeddwyd cyfarwyddyd newydd ar wasanaethau iechyd rhywiol hygyrch i bobl ifanc ym mis Gorffennaf 2001 fel Cylchlythyr Iechyd Cymru
- Lansir ymgyrch ymwybyddiaeth o beryglon heintiau a drosglwyddir yn rhywiol ym mis Rhagfyr 2001

- Derbyniodd y Gymdeithas Cynllunio Teulu gyllid gan y Cynulliad i ddarparu hyfforddiant i ddelio ag anghenion awdurdod lleol, staff y sector iechyd a'r sector gwirfoddol sy'n gysylltiedig â phlant sy'n derbyn gofal ar faterion iechyd rhywiol. Gwerthuswyd yr hyfforddiant yn llawn a chynhyrchwyd adroddiad i'r Cynulliad ym mis Awst 2001. Anfonir copïau o'r adroddiad i bob awdurdod lleol, Awdurdodau Iechyd a sefydliadau gwirfoddol Plant.

**5. Awgrymwn y gallai pob awdurdod lleol – ac, yn fwy arbennig, y plant yn eu gofal – gael budd o Wasanaeth Hawliau Plant annibynnol tebyg i'r rhai sydd eisoes ar waith mewn rhannau o Gymru.**

Darparwyd cyllid gan y Swyddfa Gymreig ar gyfer amrywiaeth o wasanaethau eiriolaeth a hawliau plant mewn ymateb i Adroddiad Adrianne Jones ym 1996. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn parhau i ddarparu cyllid, trwy Gynllun Grant Plant a Theuluoedd, i awdurdodau lleol ac asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau eiriolaeth a hawliau plant. Sicrhawyd cyllid ychwanegol trwy'r rhaglen Plant yn Gyntaf i gefnogi datblygiadau pellach yn y gwasanaethau hyn.

Adolygir Cynllun Grant Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ar hyn o bryd. Bydd y Cynulliad yn ystyried datblygiad gwasanaethau hawliau plant yn y dyfodol yng ngoleuni'r adolygiad hwnnw, ac mewn ymgynghoriad ag awdurdodau lleol, darparwyr gwasanaeth a Chomisiynydd Plant Cymru

**6. Gofynnwn i'r Cynulliad sicrhau bod awdurdodau lleol yn darparu cefnogaeth gywir a gofal i blant ar ôl iddynt adael gofal.**

Mae Deddf Plant (Gadael Gofal) 2000 yn diwygio Deddf Plant 1989 i gyflwyno dyletswyddau newydd i ehangu cyfrifoldebau awdurdodau lleol i ddiogelu lles plant sy'n gadael gofal. Mae'r Ddeddf yn ceisio sicrhau bod awdurdodau lleol yn ymddwyn fel rhiant cyfrifol tuag at y bobl ifanc hyn. Ei nod yw gohirio'r gollwng o ofal tan y bydd y person ifanc wedi'i baratoi'n gywir ac yn barod i adael, ac i wella'r gwaith paratoi a chynllunio ar gyfer gadael gofal. Bydd y trefniadau newydd mewn grym ar 1 Hydref 2001. Cefnogir hwy gan Gronfa Datblygu Plant yn Gyntaf, sy'n dosbarthu cyfanswm o £11.7 miliwn i awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

**7. Anogwn y Llywodraeth a'r Cynulliad Cenedlaethol i sicrhau bod gofalwyr ifanc yn cael cefnogaeth gywir a chydnabyddiaeth haeddiannol**

Mae hyn yn cyd-fynd yn llawn â pholisi'r Cynulliad. Yng "Nghynllun Gweithredu Strategaeth ar gyfer Gofalwyr yng Nghymru " y Cynulliad a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf y llynedd, nodir gofalwyr ifanc fel un o'r pump maes blaenoriaeth ar gyfer gweithredu. Atgyfnerthir yr ymrwymiad yn y cynllun a ddiweddarwyd: "Yr Adroddiad Cyntaf ". Comisiynodd y Cynulliad ddwy astudiaeth ymchwil i anghenion gofalwyr ifanc ac mae'n disgwyl eu derbyn yn fuan. Cynhaliwyd ymchwil bellach gan Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Bydd hyn yn llywio camau gweithredu yn y dyfodol i ddiwallu anghenion cymhleth gofalwyr ifanc.

**8. Gofynnwn i'r Cynulliad Cenedlaethol ddatblygu strategaeth i ddiwallu anghenion plant sy'n dioddef o ganlyniad i drais yn y cartref.**

Mae'r Cynulliad yn datblygu cyfarwyddyd atodol a phrotocolau drafft ar gyfer Pwyllgorau Amddiffyn Plant yr Ardaloedd ar agweddau amddiffyn plant mewn perthynas â thrais yn y cartref

**9. Gofynnwn i'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried comisiynu ymchwil ar faint a natur anabledd yng Nghymru.**

Mae llawer o ddata yn bodoli eisoes am bobl â phroblemau iechyd hir dymor ac anabledd. Cyn ystyried comisiynu astudiaeth ymchwil bellach, mae'r Cynulliad yn bwriadu cynhyrchu proffil ystadegol manylach o bobl ag anableddau yng Nghymru

**10. Croesawn y cyllid ychwanegol a glustnodwyd gan y Cynulliad ar gyfer y rhaglen ailsefydlu i bobl ag anableddau dysgu gan obeithio y bydd hyn yn arwain at gwblhau'r rhaglen ailsefydlu yn gyflym**

Bydd y cyllid ychwanegol yn caniatáu cwblhau'r cynlluniau ailsefydlu presennol ac yn cefnogi datblygiad rhaglen ailsefydlu gynhwysfawr ar gyfer yr ysbyty arhosiad hir sy'n dal mewn bodolaeth ym Mryn y Neuadd. Nod y Cynulliad yw cwblhau'r rhaglen cyn gynted â phosib, gan sicrhau bod pobl yn cael eu paratoi'n gywir a'u cefnogi wrth iddynt ailsefydlu yn y gymuned.

**11. Rhaid i ni wynebu'r ffaith bod pobl o leiafrifoedd ethnig, er eu bod wedi hen sefydlu yng Nghymru, wedi'u heithrio o sawl agwedd ar fywyd Cymru.**

Mae'r Cynulliad yn cytuno bod pobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig wedi'u heithrio o sawl agwedd bwysig ar fywyd Cymru ac mae'n mynd i'r afael â'r mater mewn sawl modd (eglurir dau ohonynt yn 12 a13 isod). Ymrwymodd y Cynulliad, yn Neddf Llywodraeth Cymru, i roi sylw i gyfle cyfartal yn ei holl fusnes. Penderfynodd hefyd y byddai cydraddoldeb yn un o brif themâu Gwell Cymru, cynllun strategol y Cynulliad.

**12. Croesawn gyhoeddiad diweddar o adroddiad ymchwil gan y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol a Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan ar anghenion gofal pobl oedrannus ddu a'r rhai o leiafrifoedd ethnig, a gofynnwn i'r Cynulliad Cenedlaethol ymateb yn bositif i'r adroddiad hwn**

Gweithiodd y Cynulliad yn agos gyda swyddfa Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol Cymru ar nifer o faterion. Roedd y Cynulliad hefyd yn gefnogol i sefydlu AWEMA (Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan).

Rydym yn cydnabod bod mater heneiddio ac ethnigrwydd yn un pwysig. Bydd y Cynulliad felly yn ystyried gwneud gwaith

pellach yn y maes hwn trwy Gofal Henoed Cymru – a fydd yn gweithio gyda phobl h•n ddu a'r rhai o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru. Wrth gytuno ar Gynllun Busnes ar gyfer 2001-2004 gyda Gofal Henoed Cymru i gefnogi cyllid grant, gosododd y Cynulliad amcanion clir mewn perthynas â heneiddio ac ethnigrwydd. Dywedodd y Cynulliad wrth Gofal Henoed Cymru eu bod am weld cydweithio effeithiol gyda grwpiau du a'r rhai o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru wrth gyflawni rhaglen waith dros y 3 blynedd nesaf. Yn ystod Blwyddyn 1 cynhelir ymchwil ac edrychir ar gwmpas fel sail i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer Blwyddyn 2 a 3.

**13. Anogwn Lywodraeth y DU a'r Cynulliad Cenedlaethol i sicrhau yr ystyrir barn y rhai hynny o leiafrifoedd ethnig ar draws amrywiaeth lawn gweithgaredd y llywodraeth yng Nghymru, a bod prosiectau a gynlluniwyd i adeiladu ar allu y cymunedau hynny'n cael eu hariannu'n gywir. Rhaid i'r ymrwymiad ar gyfer Cymru gynhwysol ac aml ddiwylliannol fod yn fwy na rhethreg yn unig**

Fel yr amlygwyd uchod, roedd y Cynulliad yn gefnogol i sefydlu Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA), corff sydd â'r nod o hwyluso cyfathrebu ac ymgynghori rhwng y Cynulliad a'r Gymuned Ddu, Lleiafrifoedd Ethnig (BME) ar faterion amrywiol a sut y gallant effeithio ar gymunedau BME yng Nghymru. Darparwyd cyllid ar gyfer ysgrifenyddiaeth y gymdeithas, a darparwyd cyllid pellach ar gyfer prosiectau penodol sy'n cefnogi nod AWEMA. Mae'r Ysgrifennydd Parhaol hefyd yn cwrdd yn rheolaidd ag unigolion o'r cymunedau BME i geisio'u barn a'u cyngor ar y ffordd y mae'r Cynulliad yn ymdrechu i sicrhau gweithlu amrywiol. Mae'r Gr•p hwn hefyd yn darparu cyngor a chymorth i ledaenu gwybodaeth am waith y Cynulliad i ddatblygu materion cydraddoldeb hiliol ymhellach yng Nghymru.

Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol ar draws Cymru ac yn fewnol i'r perwyl hwn, comisiynodd adroddiad yn ddiweddar ar hiliaeth sefydliadol yn y Cynulliad. Bydd y Cynllun Gweithredu fydd yn dilyn yn amlinellu gwaith sydd i'w wneud er mwyn gweithredu'r argymhellion yn llawn. Dymuna'r Cynulliad arwain y ffordd trwy sicrhau bod anghenion a phrofiadau y cymunedau BME yn cael eu nodi ac yr eir i'r afael â hwy yng Nghymru.

**14. Mae'n hanfodol bod yr holl wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg**

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cytuno bod hyn yn un o brif nodau cynhwysiad cymdeithasol. Dymuna'r Cynulliad weld gwasanaethau cyhoeddus sy'n parchu dewis ieithyddol unigolion, yn hytrach na pharchu cyfleustra gweinyddol y cyrff cyhoeddus eu hunain yn unig. Y fframwaith ar gyfer hyn yw mabwysiadu cynlluniau iaith Gymraeg, a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Yn dilyn Is-ddeddfwriaeth a wnaed yn haf 2001 daeth 25 o gyrff ychwanegol dan ofynion Deddf 1993. Mae'r ffordd yn rhydd bellach i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ofyn i'r sefydliadau hyn i baratoi eu cynlluniau iaith Gymraeg. Paratoir Cynllun Iaith Gymraeg newydd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus y Cynulliad hefyd.

**15. Gofynnwn i'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried pa mor ddigonol yw cyfleusterau cyfieithu ar y pryd i bobl o leiafrifoedd ethnig wrth ddelio ag awdurdodau cyhoeddus.**

Rydym ar fin dechrau gwaith i ddatblygu polisi ar y defnydd o ieithoedd lleiafrifol yn y Cynulliad; er mai ei brif nod fydd rhoi cyngor ar gyfieithu cyhoeddiadau, bydd y polisi yn rhoi arweiniad ar yr amgylchiadau pryd y dylid darparu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd. (Cyhoeddwyd cyfarwyddyd tebyg yngl•n â mynediad i wybodaeth y Cynulliad ar gyfer pobl ag anableddau).

**16. Croesawn y cynnydd yn yr ymwybyddiaeth o faint eithrio cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig. Mae’n hanfodol y dylai ariannu’r gwasanaethau, gan Lywodraeth y DU a’r Cynulliad Cenedlaethol adlewyrchu anghenion ardaloedd gwledig**

Nodwyd. Mae’r Cyngor Partneriaeth Wledig wedi cynyddu ymwybyddiaeth o faterion eithrio cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig ac wedi darparu sail ar gyfer dull cyffredin o fynd i’r afael â hwy. Yn ogystal, mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn fwy sensitif i faterion gwledig ac yn caniatáu diweddaru amlach oherwydd ei fod yn llai dibynnol ar wybodaeth a geir o’r Cyfrifiad. Bydd y Mynegai hwn yn datblygu’n offeryn pwysig ar gyfer penderfynu ar bolisi a thargedu adnoddau yn yr ardaloedd hynny sydd fwyaf ei angen.

**17. Rhannwn farn y Llywodraeth mai "Rhoi’r addysg, y sgiliau a’r cyfleoedd i bobl sydd eu hangen i lwyddo mewn gwaith ac mewn bywyd yn fwy cyffredinol yw’r allwedd i atal eithrio cymdeithasol a mynd i’r afael â'r hyn sydd wrth wraidd anfantais". Mae addysg a hyfforddiant yn dyngedfennol i frwydro yn erbyn eithrio cymdeithasol.**

Cytunwyd

**18. Gofynnwn i’r Cynulliad Cenedlaethol astudio a mabwysiadu arfer gorau o wledydd eraill wrth ddarparu hyfforddiant sgiliau. Mae’n bosibl y gall y WDA a'r Cyngor Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru elwa ar archwilio’r prosiectau y buom yn ymweld â hwy**

Cytunwn ei bod yn bwysig dysgu o arfer da mewn gwledydd eraill. Gwnaed pwynt tebyg gan Dasglu Sgiliau Cymru yn ei adroddiad a gyhoeddwyd y llynedd, er ei fod hefyd wedi rhybuddio am beryglon ceisio trosglwyddo profiad un cyd-destun sefydliadol economaidd a chymdeithasol i un arall. Gwnaed rhai ymweliadau astudio – er enghraifft aeth gr•p o’r Cynulliad Cenedlaethol a swyddogion y Gwasanaeth Cyflogi ar daith astudio i Weriniaeth Iwerddon a rhoddwyd adroddiad am ymweliad â Sgandinafia y llynedd gan gyn-Brif Weithredwr TEC De Ddwyrain Cymru. Yn ei lythyr cylch gorchwyl, gofynnodd y Cynulliad i ELWa "hyrwyddo a beirniadu popeth a wna yn erbyn safonau o safon byd ar gyfer dysgu". Rhaid iddo fod yn barod i fod yn arloesol a hyrwyddo syniadau radical i gefnogi’r ymdrech am ragoriaeth ledled Cymru lle gellir dangos bod angen newid

**19. Gofynnwn i’r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod adeiladu sgiliau yn ganolog yn ei strategaeth Amcan 1**

Mae Dogfen Rhaglennu Sengl Amcan 1 yn rhoi lle amlwg i ddatblygu sgiliau y gellir eu haddasu a rhai penodol ledled y rhanbarth. "Datblygu pobl " yw un o’r 7 blaenoriaeth a chefnogir ef gan 468 miliwn Euro.

**20. Argymhellwn fod Llywodraeth y DU yn cynnal ymgyrch genedlaethol gynhwysfawr ar hawlio budd-daliadau, gyda chefnogaeth swyddfeydd lleol a llinell ffôn. Rhaid cynnwys yr asiantaethau cynghori sector gwirfoddol wrth gynllunio a chynnal yr ymgyrch. Os ystyrir nad yw hyn yn ddigon, efallai y gall y Cynulliad Cenedlaethol hefyd ystyried ei ymgyrch ei hun yng Nghymru**

Gweler ymateb i 21 isod.

**21. Gofynnwn i’r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn darparu gwasanaeth hawliau lles effeithiol.**

Nodwyd. Ymrwymodd y Cynulliad i ddarparu cynllun £2 filiwn dros 3 blynedd i ariannu hawliau lles gweithwyr mewn Gofal Sylfaenol. Bydd y cynllun yn galluogi Meddygon Teulu i gyfeirio cleifion sydd arnynt angen cyngor ar fudd-daliadau a gwasanaethau gofal cymdeithasol at ymgynghorwyr arbenigol. Prif amcanion y fenter yw:

- cynyddu'r nifer sy’n hawlio budd-daliadau nad ydynt wedi'u hawlio;
- gwella lefelau incwm rhai pobl dlotach a;
- gostwng yr amser y mae Meddygon Teulu yn ei dreulio yn datrys ymholiadau nad ydynt yn rhai meddygol.

Mae’r Fenter Hawliau Lles sy’n dwyn yr enw **Gwell Cyngor: Gwell Iechyd** yn rhoi cyfle arwyddocaol i ddarparu cyngor cyffredinol lleol, cydlynol a chyngor ar hawliau lles, mewn partneriaeth rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a Chymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cynghori Cymru, gan gydweithio gyda thimau gofal sylfaenol ac eilaidd ledled Cymru.

Bwriedir treialu 8 prosiect yn y 6 mis cyntaf i sicrhau y bydd y canlyniadau’n cael eu bodloni ac y bydd y rhaglen yn gweithredu’n effeithiol. Caiff y rhain eu dethol ar sail angen y client ac ar barodrwydd y Canolfannau Cynghori (CAB) lleol a’r timau gofal iechyd sylfaenol i ddarparu gwasanaeth gan gynnwys adeiladu ar waith a wnaed eisoes mewn rhai ardaloedd. Mae’n debygol y bydd y rhain ym Mro Morgannwg, Powys, Wrecsam, Casnewydd, Ynys Môn, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Chaerffili i ddechrau

Bwriada CAB gynnig amrywiaeth ehangach o ddewisiadau darparu gwasanaeth, gan gynnwys:

- gwasanaethau mewn meddygfeydd Meddygon Teulu;
- gwasanaethau mewn ysbytai cymunedol;
- gwasanaethau ymweld â’r cartref;
- gwasanaethau wedi'u darparu yn adeiladau’r CAB a;
- gwasanaethau wedi’u darparu dros y ffôn.

**22. Credwn y dylai Swyddfa’r Post ymgymryd â swyddogaeth werthfawr iawn wrth ddatblygu rhwydwaith undeb credyd, gyda swyddfa’r post lleol yn darparu sail ar gyfer undeb credyd cymunedol ac, mewn rhai achosion, gyda’r postfeistr neu’r bostfeistres yn gweithredu fel rheolwr. Cymeradwywn benderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol i roi £3.8 miliwn at ddatblygu mudiad undeb credyd yng Nghymru dros y tair blynedd nesaf. Croesawn y datganiadau o gefnogaeth i undebau credyd gan Lywodraeth y DU a’r Cynulliad Cenedlaethol, a’r arian a ddarparwyd ar gyfer mentrau cyllid cymunedol o’r Gronfa Phoenix.**

**Anogwn y Llywodraeth i roi cyhoeddusrwydd i werth undebau credyd a datblygu strategaeth ar gyfer meithrin eu twf.**

Ar hyn o bryd telir yr holl arian undeb credyd trwy swyddfa’r post i gyfrifon banc sydd yn y Co-operative Bank. Mae cynigion yn cael eu datblygu i ddefnyddio adeiladu Swyddfa’r Post fel mannau casglu ar gyfer cynilion undeb credyd.

O ganlyniad i Strategaeth Genedlaethol y Llywodraeth ar gyfer Adfywio Cymdogaeth, cafwyd 18 o Adroddiadau Tîm Gweithredu Polisi. Argymhellodd Gwasanaethau Ariannol PAT 14 y dylai’r

- Adran Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau gydweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol i sicrhau bod gwaith datblygu undeb credyd ar lefel leol yn arwain at dwf iach a chynaliadwy;
- dylai HMT barhau i hyrwyddo'i fesurau dadreoliadol arfaethedig, er mwyn caniatáu i undebau credyd gyda'r potensial i dyfu wneud hynny;

Dylai Sefydliad Gwasanaethau Canolog yr undeb credyd arfaethedig hyrwyddo'i hun i bob adran o'r mudiad undeb credyd, ac annog datblygiad eang, gyda phwyslais dyledus ar undebau credyd sy'n gwasanaethu cymunedau difreintiedig

**23. Wrth ystyried ei ddull o adfywio cymunedau, efallai y byddai edrych ar brofiad yn yr Unol Daleithiau o gymorth i'r Cynulliad Cenedlaethol**

Cynlluniwyd y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf i fynd i'r afael â thlodi ac eithrio cymdeithasol yn rhannau mwyaf difreintiedig Cymru. Llywiwyd ef gan adolygiad o Arfer Gorau ar Adfywio Cymunedau ym mhob rhan o'r byd, gan gynnwys yr Unol Daleithiau. Mae'r arweiniad ar Cymunedau yn Gyntaf yn cael ei gyhoeddi ar hyn o bryd ac mae'n dwyn yr adolygiad hwn i ystyriaeth.

**24. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae angen i gyllid ar gyfer prosiectau eithrio cymdeithasol fod am gyfnod o bum mlynedd o leiaf. Nid yw rhoi llawer yn gyflym yn ddigon: mewn llawer o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig bydd angen cyllid i brosiectau ar sail barhaus, neu hir dymor o leiaf**

Cytunwn fod angen cyllid hir dymor ar brosiectau eithrio cymdeithasol. Dan raglen Cymunedau yn Gyntaf y Cynulliad cydnabyddwn fod angen canolbwyntio ymdrech dros gyfnod maith os ydym i weld newid cynaliadwy.

Er na allwn roi ymrwymiad i'r union lefel o adnoddau y tu hwnt i 2003/2004, rydym wedi gwneud ymrwymiad hir dymor i fynd i'r afael ag amddifadedd cymdeithasol trwy'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.

**25. Efallai fod angen i ni ddysgu oddi wrth y sector preifat a derbyn rhywfaint o risg yn ein buddsoddi cymdeithasol.**

Rydym yn derbyn bod rhywfaint o risg yn ein buddsoddi cymdeithasol. Ein nod yw rheoli risg yn effeithiol.

**26. Mae yna achos cryf dros gynlluniau cyllido symlach, ehangach ar gyfer prosiectau'r sector gwirfoddol**

Cytunwyd. Aethpwyd i'r afael â gwell eglurder ym maes llif cyllid fel rhan o'r adolygiad strategol o gyllid ar gyfer y sector gwirfoddol a wnaed ar gais Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol. Rydym ar hyn o bryd yn gweithredu argymhellion yr adolygiad hwnnw.

**27. Awgrymwn ei bod yn anaddas peri bod cyllido prosiectau cynhwysiad cymdeithasol yn dibynnu ar gael canlyniadau cyflym. A rhaid diffinio canlyniadau'n ofalus fel nad yw prosiectau'n gwastraffu amser ac ymdrech yn ticio bocsys yn ddibwrpas**

Cytunwyd. Nid yw cyllid Cymunedau yn Gyntaf yn dibynnu ar gael canlyniadau cyflym. Mae'n rhaglen hir dymor gyda'r nod o fynd i'r afael â'r hyn sydd wrth wraidd tlodi yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru. Byddwn yn asesu sut y gellir gwerthuso rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn effeithiol.

**28. Rhaid cynnwys gwerthuso wrth gynllunio prosiect o'r cychwyn, a rhaid rhannu gwersi gwerthuso. Ledled Cymru, mae cymunedau'n llwyddo i adfywio: rhaid annog eraill i ddilyn eu harweiniad.**

Mae agwedd y Cynulliad tuag at eithrio cymdeithasol wedi cydnabod pwysigrwydd cynnwys gwerthuso a dysgu gwersi am 'yr hyn sy'n gweithio' o'r cychwyn cyntaf. Fel tystiolaeth o hyn, mae adroddiad gwerthuso interim y cynlluniau Pobl mewn Cymunedau sy'n cael eu treialu wedi golygu bod gwersi i'w dysgu wrth weithredu a datblygu Cymunedau yn Gyntaf.

Datblygodd y Cynulliad gysylltiadau cryf â Phrifysgol Morgannwg sydd wedi darparu arbenigedd trwy secondio unigolion. Cynorthwyodd yr ymgynghorwyr hyn i ddatblygu sail gwybodaeth y Cynulliad am adfywio cymunedau, ac ynghyd â staff ymchwil yn y Cynulliad, datblygwyd agwedd arloesol tuag at werthuso yn defnyddio budd-ddeiliaid allweddol gan gynnwys aelodau o'r cymunedau eu hunain.

Yn sylfaen i'r dull hwn mae cydnabyddiaeth bod hyrwyddo arfer ar sail tystiolaeth yn dibynnu ar dderbyn yn fwy eang y dylai gwerthuso ddarparu gwersi am yr hyn nad yw'n gweithio'n dda yn ogystal ag arfer gorau. Ystyrir strategaeth ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd Cymunedau yn Gyntaf ar hyn o bryd.

Mae'r Cynulliad hefyd yn datblygu ei agwedd tuag at werthuso ar lefel gorfforaethol mewn ffordd a fydd yn sicrhau bod themâu cyffredin gan gynnwys cynhwysiad cymdeithasol yn cael eu hystyried yn fanwl wrth arfarnu cynlluniau neu werthuso canlyniadau mentrau ar draws meysydd polisi.

**29. Cawsom ein plesio gan adroddiadau a gynhyrchwyd gan yr Uned Eithrio Cymdeithasol: er bod cylch gwaith yr Uned yn cwmpasu Lloegr yn unig, mae eu casgliadau yn berthnasol iawn i Gymru. Efallai ei bod yn rhy fuan i ddweud a yw'r adroddiadau hyn wedi cael dylanwad go iawn ar y problemau yr aed i'r afael â hwy, ond yn bendant bu'r Uned yn llwyddiannus wrth ddod â gwahanol Adrannau ynghyd i ystyried problemau sy'n croesi ffiniau adrannau**

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cynnal y cysylltiadau hyn gyda'r Uned Eithrio Cymdeithasol yn Lloegr.

**30. Deallwn fod y Cynulliad i gyhoeddi adroddiad blynyddol ar y cynnydd wrth fynd i'r afael ag eithrio cymdeithasol. Bydd yn gyfle defnyddiol i roi cyhoeddusrwydd i arfer da yng Nghymru yn ogystal â bod yn sbardun i gynnal momentwm y strategaeth eithrio cymdeithasol**

Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol cyntaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Gynhwysiad Cymdeithasol yng Nghymru ar y rhyngrwyd ym mis Mehefin 2001. Ar hyn o bryd rydym yn datblygu'r adroddiad nesaf i'w gyhoeddi yng Ngwanwyn 2002.

**31. Efallai ei bod yn amser ailystyried y manteision sydd yna o Gymru yn ffurfio'i pholisi ei hun ar drethi busnes.**

Deddf Cyllido Llywodraeth Leol 1988 yw'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n llywodraethu'r system drethu yng Nghymru a Lloegr.

Dan y Ddeddf, mae gan bob gwlad luosogydd treth genedlaethol. Mae refeniw'r dreth yn cael ei dalu i bwll treth genedlaethol ar gyfer pobl gwlad, ac wedyn yn cael ei ailddosbarthu ymhlith awdurdodau lleol pob gwlad.

Mae'r Ddeddf yn cyfyngu ar gynnydd blynyddol yn y lluosogwyr i'r raddfa chwyddiant, ac eithrio pan fo ailwerthusiadau pryd y mae'n rhaid eu haddasu i wneud yn iawn am yr effaith ar y raddfa gyfan o ran cyfanswm y gwerth trethiannol (ni fu lluosogwyr Cymru a Lloegr erioed yr un fath, sy'n adlewyrchu gwahanol effaith yr ailwerthusiadau ar y ddwy wlad).

Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol reolaeth dros y rhannau hynny o'r system drethi yng Nghymru sydd wedi'u cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth, megis cynlluniau lleddfu dros dro i gyflwyno newidiadau mewn biliau treth unigol yn dilyn yr ailwerthusiadau. Cyflwynwyd y cyfryw gynlluniau ym 1990, 1995, a 2000. Ar gyfer 2000, gwahanodd y cynllun yng Nghymru oddi wrth yr un yn Lloegr ac yn hytrach na rhoi gostyngiad i drethdalwyr o bob maint, mae'n rhoi gostyngiad i drethdalwyr bach yn unig.

Yn ddiweddar, cwblhaodd y Cynulliad Cenedlaethol ymarfer ymgynghori ar newidiadau i'r system drethu, gan gynnwys y posibilrwydd o ganiatáu i awdurdodau lleol osod eu graddfeydd atodol eu hunain. Byddai'r raddfa incwm atodol yn cael ei chadw gan y cynghorau i'w defnyddio yn lleol ar gyfer materion y cytunwyd arnynt gan eu cymunedau busnes. Bydd y graddfeydd y bydd gan y Cynulliad reolaeth dros unrhyw newidiadau i'r system drethu yn dibynnu ar y graddau y bydd unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol newydd yn caniatáu sgôp i weithredu trwy'r trwy ddeddfwriaeth eilaidd.

**32. Cymeradwywn y dystiolaeth a dderbyniwyd gennym ar dai ac ar ddigartrefedd i'r Cynulliad a gofynnwn iddynt fynd i'r afael â'r problemau gwirioneddol a godwyd**

Sefydlwyd y Comisiwn Digartrefedd ym mis Tachwedd 2000 i gynghori'r Cynulliad ar y broblem barhaus o ddigartrefedd yng Nghymru. Cadeiriwyd y Comisiwn gan Peter Black, y Dirprwy Weinidog dros Dai, ac roedd yn cynnwys uwch Aelodau'r Cynulliad yn ogystal â chynrychiolwyr o'r sectorau statudol a gwirfoddol oedd yn gweithio gyda'r digartref. "Gr•p gorchwyl a gorffen" oedd y Comisiwn a chyflwynodd ei adroddiad i'r Cynulliad ym mis Awst 2001. Croesawyd yr adroddiad gan y Gweinidog, ac fe'i hystyriwyd gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar 24 Hydref. Caiff ei drafod mewn sesiwn lawn ar 20 Tachwedd.

Mae'r adroddiad yn cynnwys ystod eang o argymhellion ar y ffordd y gall y Cynulliad a sefydliadau statudol a gwirfoddol eraill leihau digartrefedd yng Nghymru a chynorthwyo'r digartref i gael gwell mynediad i wasanaethau hanfodol.

Yn enwedig, mae'r adroddiad yn cynghori'r Cynulliad ar arweiniad ar gyfer strategaethau digartrefedd, a sut y gellir lleihau digartrefedd trwy gynnig gwasanaethau ar y cyd, fel y gall pobl ddigartref sefydlu tenantiaethau cynaliadwy.

**33. Byddem yn gofyn yn arbennig i'r Cynulliad ystyried yr anfanteision a ddaw i brofiad tenantiaid yn y sector rhentu preifat.**

Mae dau fater arbennig y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy, problemau gyda Thai Amddaliadaeth (HMO) a'r ansicrwydd yngl•n â diffyg hawliau yn y sector preifat.

Gellir priodoli problemau gyda HMO i safonau gwael, cyfleusterau annigonol, gorboblogi a sbwriel, ond hefyd i faterion mwy haniaethol megis ymddygiad gwrthgymdeithasol gan denantiaid a landlordiaid. Mewn llawer o ardaloedd gyda nifer fawr o HMO, gall preswylwyr eraill fod o’r farn bod eu presenoldeb yn gwneud y gymdogaeth yn llai deniadol a gallant deimlo dan fygythiad oherwydd presenoldeb HMO a’u deiliaid. Mae gan awdurdodau lleol eisoes rym gorfodi i fynd i’r afael â phroblemau HMO. Gallant roi grantiau ar gyfer gwelliannau neu ar gyfer eu newid i fod yn unedau hunan-gynhwysol. Fe gafwyd achosion lle'r ymunodd awdurdodau lleol gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i feddiannu HMOs wedi dirywio a’u troi’n llety i deulu. Bydd y cynigion i ddiwygio’r ddeddfwriaeth adnewyddu sector preifat presennol, os cânt eu mabwysiadu, yn rhoi llawer mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol wella neu uwchraddio HMOs. Bydd awdurdodau yn gallu teilwra’u strategaeth yn well i adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol, yn unol â chyfarwyddyd i'w gyhoeddi gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Yngl•n â chwestiwn ansicrwydd a diffyg hawliau yn y sector preifat, cydnabu’r Llywodraeth y mater, a gofynnwyd i Gomisiwn y Gyfraith gynnal adolygiad o’r gyfraith ar denantiaeth. Bydd yr adolygiad hwn yn mynd i’r afael â materion sy’n ymwneud â sicrwydd tenantiaeth, hawliau tenantiaid a’r angen i symleiddio’r gyfraith yn y maes hwn. Bydd y Cynulliad ynghlwm â'r adolygiad ac yn ystyried y problemau a brofwyd gan denantiaid yn y sector preifat wrth gyfrannu at yr adolygiad hwn

**34. Gofynnwn i’r Cynulliad a Llywodraeth y DU gyda’i gilydd ystyried a oes angen unrhyw ddeddfwriaeth bellach i reoli gweithgareddau landlordiaid diegwyddor ac i sicrhau tai gweddus y gellir eu fforddio yn y sector rhentu preifat**

Cyflwynodd Deddf Tai 1996 gynlluniau cofrestru newydd HMO, sy’n ymestyn grym Awdurdodau Lleol i fynnu amodau a rheolaeth o well safon. Anogir awdurdodau lleol i ddefnyddio’r grymoedd ehangach hyn.

Mae gan awdurdodau lleol rym gorfodi eisoes i ddelio â phroblemau mewn HMOs a gallant hefyd roi grantiau i wella’u cyflwr ac i’w newid i fod yn llety hunan-gynhwysol.

Mae’r Llywodraeth wedi ymrwymo hefyd i gyflwyno cynllun trwyddedu gorfodol cenedlaethol, gyda’r nod o ddarparu amodau byw diogel, derbyniol, heb ostwng y cyflenwad o lety sy'n cael ei rentu’n breifat. Mae’r cynigion trwyddedu yn cynnwys newid diffiniad cyfreithiol HMO i ddod â mwy o eiddo i'r cylch cofrestru (gan gynnwys y rhan fwyaf o breswylfeydd myfyrwyr). Cyflwynir y cynigion yn y Senedd ar y cyfle cyntaf. Bydd y ddeddfwriaeth sylfaenol ar sail Cymru a Lloegr ond bydd gan y Cynulliad Cenedlaethol gyfle i ddylanwadu ar gyfeiriad trwyddedu trwy ei rymoedd deddfwriaethol eilaidd.

Mae’r Cynulliad ar fin ymgynghori ar gynigion am drwyddedu dethol ar gyfer rhannau eraill o’r sector rhentu preifat. Bydd gan awdurdodau y grymoedd disgresiynol i drwyddedu eiddo sector preifat eraill dan rai amgylchiadau.

**35. Mae’n hanfodol bod cydweithio agos rhwng y Swyddfa Gartref, y Cynulliad Cenedlaethol ac awdurdodau lleol er mwyn mynd i'r afael ag agweddau "cyfiawnder troseddol" eithrio cymdeithasol yng Nghymru**

Mae’r Cynulliad a’r Swyddfa Gartref yn rheoli Uned Gostwng Troseddau ar y cyd gyda Chyfarwyddwr Gostwng Troseddau a benodwyd gan y Swyddfa Gartref a staff cefnogi wedi’u darparu gan y Cynulliad. Mae’r uned yn cydadrodd i’r Swyddfa Gartref a Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Cynulliad.

Mae’r uned yn gweithio’n agos gyda’r 22 o Bartneriaethau Trosedd ac Anhrefn yng Nghymru gydag aelodaeth o grwpiau arwain y bartneriaeth yn gweithio gydag ymarferwyr. Arweinir y partneriaethau gan yr heddlu ac awdurdodau lleol.

Sefydlwyd Gr•p Arwain Gostwng Troseddau Cymru gyfan yn cynnwys yr heddlu, awdurdodau lleol, iechyd, y gwasanaeth prawf ac uwch Weision Sifil y Cynulliad ynghyd â chyfarwyddwr gostwng troseddau.

Mae’r Prif Gwnstabliaid, yr Awdurdodau’r Heddlu a'r Gwasanaeth Tân yn cwrdd â’r Gweinidog dros Gyllid a Llywodraeth Leol yn chwarterol i drafod materion cyffredin. Cynhelir cyfarfodydd tebyg gyda’r Gwasanaeth Prawf a’r Gwasanaeth Carchardai. Mae maes llafur pwysig yn canolbwyntio ar amddifadedd cymdeithasol a'i gysylltiad â throsedd, anhrefn, troseddau ieuenctid a chyffuriau.

Cynrychiolir y Cynulliad ar 4 Pwyllgor Cyfiawnder Troseddau yr Ardaloedd.

**36. Gofynnwn i’r Cynulliad weithio gydag awdurdodau lleol a’r sector gwirfoddol i safoni'r ystadegau eithrio cymdeithasol a gasglwyd yng Nghymru a sicrhau y darperir data ar y lefel isaf bosibl**

Mae’r Cynulliad yn gweithio mewn cydweithrediad â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i ddatblygu’r Gwasanaeth Ystadegau Cymdogaethau. Mae'r gwasanaeth yn un o ddeilliannau'r adroddiad PAT18 yn Lloegr ond datblygir ef, mewn partneriaeth, i gynnwys Cymru. Mae cam cyntaf y gwasanaeth ar waith eisoes ac yn cynnwys rhywfaint o ddata Cymru ar lefel ward. Bydd yr Uned Ddata Llywodraeth Leol newydd yng Nghymru yn cynorthwyo’r Cynulliad i wella’r amrywiaeth o ddata fesul ardaloedd bach sydd ar gael a bydd yn ymgynghori gyda chynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol a chymunedol yngl•n â’n cynlluniau i ddatblygu ystadegau cymdogaeth i Gymru.

**37. Rhaid cynnwys pobl sy’n profi eithrio cymdeithasol a thlodi yn llawn wrth ddatblygu polisi i fynd i’r afael â’r problemau hynny**

Cytunwn. Daliad canolog rhaglen Cymunedau yn Gyntaf y Cynulliad yw y dylai atebion i broblemau cymunedol gael eu harwain gan y gymuned.